**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA/HIDCC/0964/25

Dr David Clubb (Cadeirydd)
Dr Eurgain Powell (Comisiynydd Arweiniol)
Eluned Parrott (Comisiynydd Arweiniol)
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

nationalinfrastructurecommissionforwales@gov.wales

17 Ebrill 2025

Annwyl Dr David Clubb, Dr Eurgain Powell ac Eluned Parrott,

Diolch am gyflwyno adolygiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru o **Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050.**

Rwy'n croesawu'r gwaith y mae'r Comisiwn wedi'i wneud â'r pwnc hwn, a'r ffordd agored ar sail gwerthoedd y mae'n delio ag ef. Mae'n amlwg bod y trywydd hwn wedi annog rhanddeiliaid i feddwl yn wahanol am y problemau y bydd y perygl o lifogydd yn eu hachosi, mewn hinsawdd sy'n newid dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'r sylfaen dystiolaeth rydych chi wedi'i datblygu, gan gynnwys yr adroddiadau technegol ategol ynghyd â'r argymhellion eu hunain, yn ein helpu i ddirnad y pwnc yn well.

Mae'r gaeaf sydd newydd fynd heibio wedi dangos eto realiti byw gyda llifogydd mwy cyffredin a difrifol a'r angen i ni ddatblygu'n hymatebion ymhellach.

Mae'ch adroddiad yn cydnabod bod rheoli perygl llifogydd yn fater hirdymor cymhleth, sy'n gofyn am gydweithredu a meddylfryd amlddisgyblaethol i lunio atebion fydd yn ateb gofynion cenedlaethau'r dyfodol. Er nad yw'n bosibl atal llifogydd bob tro, mae angen i ni sicrhau ein bod gyda'n gilydd yn meithrin gallu cymunedau ledled y wlad i'w gwrthsefyll, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth groesawu'r adroddiad yn ei gyfanrwydd, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i ymateb i bob argymhelliad yn ei dro:

### Argymhelliad 1 – Sefydlu Comisiynydd Dŵr newydd erbyn 2026

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod y pwnc y mae'r argymhelliad hwn am fynd i'r afael ag ef, sef rhoi arweiniad strategol i gynllunio integredig er mwyn delio â pherygl llifogydd ar lefel dalgylch.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaeth y Comisiwn Dŵr Annibynnol (IWC) alw am dystiolaeth yn ddiweddar (Independent Commission for Water – call for evidence – GOV.UK). Mae hyn yn ymdrin â her debyg ac yn gofyn am farn ynghylch y posibilrwydd o benodi'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel 'cynllunydd systemau' *"fel ffordd o oresgyn y duedd i wneud penderfyniadau am y system ddŵr o fewn seilos."*

O ystyried y gorgyffwrdd rhwng eich argymhelliad chi a meddylfryd newydd yr IWC, rwy'n awyddus i'w hystyried gyda'i gilydd cyn penderfynu ar ffordd ymlaen. Mae hyn yn golygu y byddaf yn dychwelyd at y mater hwn ar ôl darllen adroddiad yr IWC yn yr haf.

Rwy'n cytuno bod bwlch mewn perthynas â chynllunio strategol, integredig a bod angen ei lenwi. Byddaf yn pwyso a mesur yn ofalus y gwerth ychwanegol a allai ddod felly o sefydlu corff newydd, neu o roi swyddogaethau penodol i gorff sy'n bod eisoes, i lenwi'r bwlch hwn, a'r gost a'r cymhlethdodau posibl all ddod yn sgil hynny. Byddwn yn croesawu clywed barn y Comisiwn am y polisi hwn.

Mae angen bod yn glir, os mai dyma fydd ein cyfeiriad, na fydd yn bosib creu corff newydd (na throsglwyddo'r swyddogaethau i gorff sy'n bod eisoes) erbyn 2026.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid allweddol i weld sut y gallai unrhyw gyd-drefnu strategol fod yn fanteisiol.

**Argymhelliad 2 – Creu strategaeth genedlaethol hirdymor 30 mlynedd erbyn 2026, yn seiliedig ar weledigaeth 30 mlynedd ar gyfer gwrthsefyll llifogydd a gweithredu ar sail dalgylch.**

Rwy'n cytuno ei bod yn hanfodol sicrhau gweledigaeth a chynllun strategol hirdymor i allu addasu a sicrhau gwytnwch yn y tymor hwy, ond rhaid cadw'r ddisgl yn wastad rhwng y ffocws ar greu'r weledigaeth honno a'i throi'n weithredu ar lawr gwlad ar y naill law a chanolbwyntio ar weithredu er lles ein cymunedau ar y llall.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn esbonio ein gweledigaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd tan 2030. Mae'n disgrifio'r meysydd y byddwn ni a'n partneriaid yn gweithio arnynt dros y cyfnod statudol o 10 mlynedd, ond mae'n cynnwys polisïau hefyd sy'n ymestyn 100 mlynedd i'r dyfodol. Cyhoeddais hefyd y Strategaeth Ymaddasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru ym mis Hydref 2024 sy'n disgrifio'n hymrwymiad i ymateb i hinsawdd sy'n newid. Yn y ddogfen honno, rydym yn cydnabod bod llifogydd yn effeithio ar bob maes polisi.

Serch hynny, o gofio'r stormydd a gafwyd dros y gaeaf, mae'n amlwg bod angen siarad eto am reoli rhag llifogydd a helpu cymunedau mewn perygl i'w gwrthsefyll. Nid oes angen gweledigaeth na strategaeth newydd i ysgogi'r drafodaeth hon nac i bennu ei chyfeiriad, ond gallent gynnig fframwaith defnyddiol ar ei chyfer.

Dylwn nodi hefyd, unwaith eto, fod gorgyffwrdd â rhai o syniadau'r IWC, yn enwedig o ran y ffocws yn eich argymhelliad ar symleiddio cynlluniau a strwythurau. Er bod llawer o'r cynlluniau a'r strwythurau hyn yn delio â dŵr a llifogydd ar wahân, mae cyfle amlwg i gyfuno'r ddau, o gofio eu bod i gyd yn ymwneud â dŵr neu'r berthynas rhwng tir a dŵr. Felly, er nad wyf yn bwriadu creu gweledigaeth na strategaeth newydd erbyn 2026, rwy'n rhagweld y bydd hwn yn fater y bydd y Senedd nesaf am ddod yn ôl ato.

**Argymhelliad 3 – Ymgorffori natur fel rhanddeiliad allweddol erbyn 2028**

Nid wyf am roi'r argymhelliad i *ymgorffori byd natur fel rhanddeiliad allweddol erbyn 2028, gan roi llais iddo o amgylch y bwrdd ac ystyried cyfleoedd i ddiogelu asedau naturiol yn ôl y*

*gyfraith, neu ddiweddaru Deddf yr Amgylchedd 2015 i roi hawliau i asedau naturiol wrth wneud penderfyniadau*" ar waith ar hyn o bryd.

Rwy'n cydnabod bod enghreifftiau drwy'r byd o natur, neu asedau naturiol penodol, yn cael hawliau. Byddai angen ystyriaeth fanwl i weld a fyddai hynny'n syniad priodol yng Nghymru. Mae mwy a mwy o drafod ar y pwnc hwn a bydd Llywodraeth Cymru yn monitro datblygiadau.

Yn y cyfamser, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf yr Amgylchedd 2016 a'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth arfaethedig yn darparu fframwaith clir i gydnabod a phrisio natur wrth wneud polisi a phenderfyniadau yng Nghymru.

**Argymhelliad 4 – Sicrhau bod Polisi Cynllunio, TAN 15 yn osgoi datblygiadau diangen mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd**

Mae Polisi 8 yn Dyfodol Cymru yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â pherygl llifogydd yn y system gynllunio. Yn ogystal, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio fersiwn newydd TAN 15 Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar 31 Mawrth.

Mae'r TAN15 newydd yn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau i ddiogelu'r amgylchedd, diogelu twf ein heconomi a chreu cymunedau cynaliadwy. Mae'r seibiant diweddar wedi bod yn gyfle gwerthfawr arall i gryfhau ein gallu i wrthsefyll llifogydd gan sicrhau bod cynlluniau yn y dyfodol yn cydnabod gweithgareddau awdurdodau lleol tra'n cwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil yr argyfwng newid hinsawdd.

Law yn llaw â'r TAN newydd, rydym wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Hysbysu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n bwriadu cymeradwyo datblygiad newydd sy'n agored iawn i niwed ym mharth llifogydd 3, lle nad yw ar dir llwyd, roi gwybod i Weinidogion Cymru amdano cyn y caiff roi unrhyw gydsyniad cynllunio. Rydym hefyd wedi ailddechrau Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru yn ddiweddar sy'n casglu gwybodaeth am ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd. Disgwylir adolygu'r setiau data a gesglir fel rhan o'r fframwaith nes ymlaen yn 2025. Gallai hyn gynnwys cynigion i gasglu setiau data newydd ar ddatblygu a pherygl llifogydd.

**Argymhelliad 5 – Treialu partneriaethau dalgylch rhanbarthol / lleol erbyn 2026**

Rwy'n bendant yn fy meddwl bod angen rhoi sylw mwy systematig ar ddalgylchoedd wrth reoli perygl llifogydd, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. Rydym hefyd yn cydnabod, wrth addasu i'r hinsawdd, bod angen gwneud hynny mewn ffordd sy'n seiliedig ar le ac ar systemau cyfan, hynny i fynd i'r afael â risgiau ehangach sy'n deillio o'r hinsawdd. Mae hwn yn bwnc y carem ei ystyried ymhellach gyda'r Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ac eraill.

Fel y dywedwch yn eich adroddiad, ceir enghreifftiau o hyn yn digwydd yn lleol ac mae grwpiau fel Bwrdd Rheoli Maetholion yn dod â'r rhanddeiliaid rydych chi yn eu henwi ynghyd i drafod ansawdd dŵr amgylcheddol.

Rwy'n bwriadu ystyried cynnal peilot, gan ddatblygu'r enghreifftiau presennol, i gloriannu'r dulliau mwyaf effeithiol. Bydd yn bwysig rhoi'r amser i ddatblygu peilot ystyrlon y gellir dysgu ohono. Ni fydd gennym drefn systematig erbyn 2026.

Mae Datganiadau Ardal, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn fecanwaith posibl i ategu'r partneriaethau dalgylch. Mae hyn yn rhywbeth y mae fy swyddogion yn ei drafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Pwnc ein Sgyrsiau am yr Hinsawdd y llynedd oedd ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, a byddaf yn ystyried y gwersi a ddysgwyd i drafod yn fanylach â phobl am yr hyn y mae addasu i'r hinsawdd yn ei olygu i'w cymunedau. Byddwn yn cyhoeddi yn yr Haf ganlyniadau Adolygiad Trafod a fydd yn argymell sut y gallwn ddatblygu'r gweithgaredd hwn, a gweithio gydag eraill, gan gynnwys Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, ar gyfleoedd i gydweithio ar gyfer ymgysylltu â chymunedau.

**Argymhelliad 6 – Sefydlu Fforwm Gwytnwch Dŵr newydd i Gymru erbyn 2027**

Byrdwn yr argymhelliad hwn yw meithrin gallu cymunedau i gynllunio ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt. Rwy'n cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Mae'n fater sydd wedi cael ei drafod yn helaeth yn y Senedd dros y misoedd diwethaf ac mae cefnogaeth eang iddo.

Rwy'n cytuno bod lle gwerthfawr ar lefel genedlaethol i 'Fforwm Gwytnwch Dwr Cymru' neu ei debyg. Gallai ategu trefniadau wrth gefn sifil ffurfiol, trwy weithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i'w helpu i fod yn wydn ac i allu eu cefnogi pan geir llifogydd.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cymunedau yn ystod llifogydd ac wrth ddatblygu eu gallu i'w gwrthsefyll yn yr hirdymor. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol ill dau yn cael eu hariannu i drafod â chymunedau a'u grymuso i baratoi rhag peryglon llifogydd a rheoli'r risgiau hynny. Bydd ganddynt rôl bwysig o ran rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, gan dynnu ar eu profiad.

Rwy'n cefnogi sefydlu mwy o grwpiau ar lefel cymunedau i'w helpu i wrthsefyll llifogydd. Bydd angen rhagor o waith ar rai o'r cynigion manwl, gan gynnwys rolau 'asiantau newid' wedi'u hariannu, mynediad at gyngor technegol ac asesiadau llifogydd cartrefi, cyn y gallwn weithredu, ond rwy'n awyddus i archwilio hyn ymhellach.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio gyda'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol (NFF) i archwilio'r rôl y gallent ei chwarae i gefnogi cymunedau yng Nghymru yn well. Byddwn yn gweld hyn fel rhan o set o gefnogaeth i gymunedau yn hytrach na'i weld yn datblygu fel un ffynhonnell o gefnogaeth.

**Argymhelliad 7 – Symleiddio cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yn strategaethau gwytnwch dalgylch erbyn 2026**

Rwy'n cytuno y dylwn yn y dyfodol ganolbwyntio ar gynlluniau dalgylch integredig ac fel y dywedwn uchod, mae hwn yn faes y mae'r IWC wedi tynnu sylw ato wrth alw am dystiolaeth.

Bydd yn rhaid wrth amser i ddatblygu hyn a rhaid hefyd wrth gefnogaeth Awdurdodau Lleol, CNC, cwmnïau dŵr, perchenogion tir, rheolwyr tir a phartneriaid eraill. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu map ffordd i gynllunio dalgylchoedd ar gyfer dwr. Bydd yn esbonio sut y gallem wneud hyn.

Er mwyn helpu i fabwysiadu arferion magu gwytnwch mewn dalgylchoedd ar raddfa ehangach, rydym wedi cyhoeddi mapiau cyfle ar gyfer rheoli llifogydd naturiol ar Fap Data Cymru. Mae'r mapiau cyfle yn helpu partneriaid i nodi'r lleoliadau posibl mwyaf effeithiol ar gyfer cynnal gwaith rheoli llifogydd cenedlaethol. Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth hon er mwyn datblygu prosiectau ar raddfa dalgylch yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8 – Cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau**

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau am y perygl o lifogydd. Mae ein Canllawiau Achos Busnes ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025 ac yn cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu holl gynlluniau rheoli perygl llifogydd Cymru. Mae'r canllawiau yn creu disgwyliad y trafodir â rhanddeiliaid ym mhob cam o broses datblygu cynllun, gan gynnwys gweithio gyda chymunedau i ddatblygu cynigion ar gyfer rheoli perygl llifogydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cymorth a chyngor drwy sesiynau ymgysylltu â chymunedau a grwpiau ar lunio a phrofi cynlluniau llifogydd cymunedol er mwyn i gymunedau allu bod yn fwy rhagweithiol a gwydn.

Trwy ein gwaith ar newid hinsawdd, rwyf wedi comisiynu Kings College Llundain i bwyso a mesur gwahanol fathau o ymgysylltu (gan gynnwys rheithgorau dinasyddion) a bydd yr adroddiad hwnnw'n rhoi sylfaen ddefnyddiol o dystiolaeth i ni i benderfynu sut orau i ymgysylltu ar reoli perygl llifogydd.

Drwy ein hymwneud â'r gyd-Raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cyfrannu at ymchwil ar sut i ledaenu gwybodaeth am reoli llifogydd a'r arfordir yn fwy effeithiol, a gall ei chanfyddiadau ein helpu i benderfynu sut i drafod â chymunedau am y risg o lifogydd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried yn benodol sut i sicrhau bod pawb yn gallu cael at wybodaeth a bod grwpiau amrywiol yn cael cyfrannu at wneud penderfyniadau.

Wrth i ni ddatblygu cynlluniau dalgylchoedd, bydd cyfleoedd i bwyso a mesur y ffyrdd mwyaf effeithiol o gysylltu â chymunedau.

**Argymhelliad 9 – Sefydlu cronfa Rheoli Llifogydd yn Naturiol draws-sector i ymaddasu a gwrthsefyll newid hinsawdd erbyn 2026**

Mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn cynnwys £2m ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol. Rwy'n awyddus i adeiladu ar hyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r argymhelliad hwn.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad oes digon o arian cyhoeddus i ddiwallu maint yr angen. Mae'n hanfodol buddsoddi mewn rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ond mae angen i ni sicrhau bod unrhyw farchnadoedd ar gyfer gwasanaethau natur ac amgylcheddol yn harneisio galluoedd ac adnoddau'r sector preifat. Rhaid eu dylunio a'u rheoli'n dda i osgoi unrhyw 'wyrddgalchu' ac i sicrhau eu bod yn onest, yn gwella'r amgylchedd ac yn ennyn diddordeb cymunedau lleol ac yn dod â budd iddynt. Cyhoeddais yn ddiweddar y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Bydd meithrin gwytnwch ein systemau naturiol a chefnogi ymaddasu i'r hinsawdd yn flaenoriaethau.

**Argymhelliad 10 / 11 – Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol**

Rwy'n cydnabod y dadleuon o blaid buddsoddi yn y maes hwn a'r manteision a ddaw o gael setliadau aml-flwyddyn. Cafodd y materion hyn eu codi hefyd yn yr adroddiad *'Gofynion Buddsoddi Hirdymor'* a chan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae'r ffordd y mae'n derbyn ei chyllideb ac a yw'r gyllideb honno yn rhoi sicrwydd am flwyddyn neu am sawl blwyddyn, yn ffrwyno Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried beth mwy y gallem ei wneud yn hyn o beth, gan gydnabod bod cynlluniau buddsoddi tymor hwy yn bod ar gyfer buddsoddi mewn meysydd seilwaith eraill.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau o ran gweithlu a'r capasiti ehangach yn y maes hwn. Mae is-grŵp bach o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol wrthi'n llunio cynigion i'w hystyried, gan gynnwys cynigion a fyddai'n cynhyrchu cyllid.

Fel y dywedais yn fy ymateb i argymhelliad 9, mae gwaith ar y gweill i adeiladu ar yr Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy i sicrhau buddsoddiad cynaliadwy a moesegol i feithrin gallu ein systemau naturiol i wrthsefyll llifogydd. Mae Argymhelliad 11 yn cynnwys sawl syniad ynghylch ffynonellau cyllid ychwanegol yr wyf yn awyddus i ni eu hystyried.

**Argymhelliad 12 – Sefydlu tasglu erbyn 2027 i ystyried y defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur**

Rwy'n awyddus i annog y defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur ac i weithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a chwalu rhwystrau. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn atebion sy'n seiliedig ar natur. Hyd yn hyn yn nhymor hwn y Senedd, rydym wedi buddsoddi £5.5m i ymgorffori dulliau naturiol o reoli llifogydd ledled Cymru.

Ar y funud, dwi ddim am sefydlu tasglu na grŵp tebyg i ddelio â'r mater ond byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa.

**Argymhelliad 13 – Rhoi cymorthdaliadau i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau iddynt allu gwrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo**

Yn gyffredinol, Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno mesurau ar lefel eiddo i wrthsefyll llifogydd. Y cynlluniau gorau ar gyfer gwrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo yw'r rhai cymunedol, gan eu bod yn sicrhau bod mesurau'n cael eu gosod yn iawn ac yn rhoi arweiniad i drigolion ar sut i'w defnyddio. Mae ei gwneud hi fel hyn hefyd yn fwy effeithlon gan ei fod yn cynnig arbedion graddfa ac yn rhoi mwy i ni am ein harian.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynlluniau gwrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo lle dangosir eu bod yn gost-effeithiol. Rydym hefyd yn eu hannog i gyflwyno cynlluniau ar lefel eiddo fel mesur interim, i dawelu ofnau cymunedau tra bod cynllun ffurfiol yn cael ei ddatblygu.

Nid oes angen i ddeiliaid tai sydd wedi cael mesurau gwrthsefyll llifogydd wedi'u gwneud i'w heiddo drwy'r cynlluniau hyn roi cyfraniad ariannol a chaiff y cymunedau mwyaf mewn perygl eu targedu.

Rwyf am barhau i neilltuo cyllid i gefnogi'r mesurau hyn a byddaf yn edrych sut y gallwn gynyddu'r buddsoddiad mewn mesurau gwrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo, yn enwedig i'r rheini sydd fwyaf mewn perygl ac yn lleiaf abl i ddygymod â'r gost.

Byddaf yn edrych gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ar y cyfleoedd i gynnwys y mesurau hyn, lle bo hynny'n berthnasol, wrth fuddsoddi i wella ansawdd tai.

**Argymhelliad 14 – Integreiddio gwrthsefyll llifogydd ac ymaddasu i'r hinsawdd yng nghwricwla ysgolion**

Mae dysgu am yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd yn orfodol o fewn Cwricwlwm Cymru, drwy Feysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a cheir cyfleoedd i ddysgu amdanynt yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant. Mae hyn yn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu dysgu am yr heriau a ddaw yn sgil yr argyfyngau hinsawdd a natur ac yn gyfle i ysgolion ddewis amrywiaeth o bynciau a chyd-destunau dysgu sy’n ymwneud â newid hinsawdd fel llifogydd.

Rhaid i’r addysgu roi sylw penodol i'r hinsawdd, a dylid ystyried sut mae hynny'n cefnogi dysgwyr i gyflawni Pedwar diben y cwricwlwm newydd.

Mae Cymwysterau Cymru yn diwygio cymwysterau TGAU i adlewyrchu cynnwys Cwricwlwm Cymru. Pwrpas diwygio'r cymwysterau yw galluogi pob dysgwr i gyflawni pedwar diben Cwricwlwm Cymru. Mae'r Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 yn cael eu haddysgu mewn ysgolion o fis Medi 2025, Medi 2026 a Medi 2027.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn arwain adolygiad o Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Cymru. Yn ddiweddar, gofynnwyd i CBAC gynnal adolygiad penodol o gymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru er mwyn canfod unrhyw anghysonderau neu fylchau mewn perthynas â’r cymwysterau TGAU newydd a chymwysterau perthynol. Yna, lle gwelir bod angen, bydd CBAC yn diwygio’r cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch cyfredol. Megis cychwyn y mae'r gwaith ar hwnnw ac nid oes gan Lywodraeth Cymru gyllideb ar ei gyfer ar hyn o bryd. Byddai angen llwybrau cyllido gan gynnwys o'r tu allan i Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw weithredu arfaethedig.

Mae yna ffyrdd i ddysgu a meithrin sgiliau y tu allan i gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys trwy waith Canolfan Monitro Arfordir Cymru sy'n sefydliad a ariennir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro a chyfathrebu esblygiad ein harfordir.

Nid wyf am gynnal ymgyrch genedlaethol ar wrthsefyll ac ymaddasu i lifogydd ar hyn o bryd ond, wrth i ni adolygu effaith sut ydym yn ymhel â'r newid yn yr hinsawdd, byddaf yn edrych yn benodol ar sut rydym yn ymdrin â phroblemau ymaddasu i hinsawdd sy'n newid, gan roi blaenoriaeth i reoli perygl llifogydd.

**Argymhelliad 15 – Cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau glas a'r ddisgyblaeth newydd Amgylchedd Dŵr**

Rwy'n cydnabod bod angen datblygu ymhellach y sgiliau a gynigir ar gyfer rheoli perygl llifogydd a disgyblaethau cysylltiedig. Fel y dywedwyd eisoes yn y llythyr hwn, mae is-grŵp bach o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol wrthi'n llunio cynigion i'w hystyried, a fydd yn cynnwys cymwysterau newydd ac yn canolbwyntio ar anghenion amlddisgyblaethol.

**Argymhelliad 16 – Darparu gwybodaeth a sgiliau ehangach ynghylch gwrthsefyll llifogydd erbyn 2028**

Mae cynghorwyr lleol, cynghorau tref a chynghorau cymuned yn chwarae rhan ganolog o ran cefnogi eu cymunedau ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i'w cefnogi hwythau yn hynny o beth. Rwy'n deall bod gwaith eisoes ar y gweill, trwy CLlLC sy'n cynllunio cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau etholedig am reoli perygl llifogydd.

Yn fy marn i, mae cysylltiad rhwng yr argymhelliad hwn, o ran meithrin capasiti, ac argymhelliad 6 o ran cefnogi cynrychiolwyr etholedig lleol i gefnogi cymunedau i reoli perygl llifogydd.

**Argymhelliad 17 – Mynediad agored a thryloyw at ddata erbyn 2028**

Mae rhybuddion llifogydd effeithiol yn hanfodol a dyna pam ein bod wedi buddsoddi £6m yn System Rhybuddio Llifogydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â'r Swyddfa Dywydd, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ganolfan Rhagolygon Llifogydd i nodi datblygiadau newydd, er enghraifft rhybuddion dŵr wyneb, y byddem am eu defnyddio yng Nghymru.

Rydym eisoes wedi sefydlu platfform JIGSO fel rhan o MapDataCymru, fydd yn cadw gwybodaeth am bobl fregus sy'n byw mewn eiddo "mewn perygl" ac a fydd ar gael i ymatebwyr yn ystod digwyddiad mawr. Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod stormydd y gaeaf hwn, mae Tîm Diogelwch a Gwydnwch Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallwn wella mynediad at ddata cynhwysfawr o ansawdd uchel.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn dangos yn glir ein hymrwymiad i wella safonau, creu deialog agored ac i gydweithio i gyhoeddi mapiau a modelau risg fydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs